

POLISI GWIRFODDOLWYR

a) Recriwtio Gwirfoddolwyr:

Mae CGC yn gweithredu ac wedi'i rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr er mwyn cyrraedd nodau ac amcanion CGC.

Mae'r nodau a'r amcanion yn gofyn am amrywiaeth o sgiliau i'w cyflawni'n llwyddiannus. Cynhelir trafodaethau â darpar wirfoddolwyr i weld pa dasgau y maent yn dymuno eu gwneud, beth yw eu sgiliau, pa mor addas ydyn nhw a sut gallant gyflawni eu potensial orau.

b) Diogelwch Gwirfoddolwyr:

Bydd CGC yn gofalu'n llawn am ragweld unrhyw risg y gall gwirfoddolwyr ei wynebu wrth weithio ar brosiectau CGC a gwarchod yn ei erbyn.

c) Gwasanaeth fel y gwêl CGC yn dda

Mae CGC yn derbyn gwasanaeth pob gwirfoddolwyr gyda'r ddealltwriaeth bod gwasanaeth o'r fath fel y gwêl CGC yn dda. Mae'r gwirfoddolwyr yn cytuno y gall CGC ar unrhyw adeg, am ba bynnag reswm, benderfynu terfynu perthynas y gwirfoddolwr â'r corff.

Gall gwirfoddolwr ar unrhyw adeg, am ba bynnag reswm, benderfynu torri ei berthynas â CGC. Dylid rhoi gwybod am benderfyniad o'r fath cyn gynted ag sy'n bosibl i aelod o'r Cyngor Cyffredinol.

ch) Cyfle Cyfartal

Mae gan CGC bolisi cyfle cyfartal o ran pob gwirfoddolwr.

d) Diffiniad o 'Wirfoddolwr'

Gwirfoddolwr yw unrhyw un sydd, heb gael ei ddigolledu neu ddisgwyl cael ei ddigolledu mwy nag ad-dalu treuliau a gododd wrth wneud ei d/dylyswyddau fel gwirfoddolwr, yn gwneud tasg o dan gyfarwyddyd CGC ac ar ei rhan.

DATGANIAD IAITH CGC

Mae Cymru'n genedl ddwyieithog lle gellir gweld a chlywed y ddwy iaith a lle maent yn destun balchder a chryfder i bawb. Dymuna CGC hyrwyddo dwyieithrwydd lle y bo'n bosibl ac yn ymarferol.

POLISI IECHYD A DIOGELWCH CGC

Polisi CGC yw gofalu'n briodol am unrhyw berson sy'n mynychu unrhyw un o'i ddigwyddiadau. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd CGC yn rhagweld ac yn gwarchod yn erbyn unrhyw risg y gall aelodau o'r cyhoedd neu wirfoddolwyr CGC ei wynebu wrth fynychu neu weithio ar brosiectau CGC.

Bydd CGC, wrth gymryd rhan mewn digwyddiad a gynhelir gan gorff arall, yn ogystal â gwneud ei asesiad risg ei hun, yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion neu gyfyngiadau diogelwch a osodir gan weinyddwyr y lleoliad.

Bydd CGC yn talu pris yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti.

POLISI'R GRONFA WRTH GEFN

Mae'r polisi hwn i gael ei adolygu, ond ar hyn o bryd £20,000 + /- £5,000 ydyw. Gweler Cofnodion y Cyngor 27 Mehefin 2009.